

Arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Lle rhoddwyd rhybudd)

Adran Meddygaeth Niwclear,
Ysbyty Brenhinol Morgannwg,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 4/5 Hydref
2021

Dyddiad cyhoeddi: 6 Ionawr 2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	What we did	5
2.	Summary of our inspection.....	6
3.	What we found	8
	Quality of patient experience	9
	Delivery of safe and effective care	16
	Quality of management and leadership	30
4.	What next?	42
5.	How we inspect service who use ionising radiation.....	44
	Appendix A – Summary of concerns resolved during the inspection	46
	Appendix B – Immediate improvement plan	47
	Appendix C – Improvement plan	48

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o'r Adran Meddygaeth Niwclear yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ar 4 a 5 Hydref 2021.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac uwch-gynghorydd o Grŵp Cysylltiad Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, sef Iechyd Cyhoeddus Lloegr gynt, a gyflawnodd swyddogaeth gynghori.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (RhYİ(CM) 2017)
- Bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015)

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u rolau fel deiliad dyletswydd a'u cyfrifoldebau yn unol â RhYĪ(CM) 2017.

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion am eu profiadau wrth fynychu'r adran. Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion a chanfuom fod staff yn trin cleifion mewn modd caredig, parchus a phroffesiynol.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd staff yn trin cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd
- At ei gilydd, gwelsom gydymffurfio da â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017
- Cysylltiadau gwaith da rhwng Arbenigwyr Ffiseg Feddygol¹ a staff sy'n gweithio yn yr adran
- Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau priodol wedi'u rhoi ar waith i ganiatáu atal a dadheintio heintiau yn effeithiol
- Tystiolaeth o wybodaeth ysgrifenedig ddigonol yn cael ei darparu i gleifion cyn eu harchwiliadau

¹ Mae arbenigwr ffiseg feddygol yn unigolyn sydd â gwybodaeth, hyfforddiant a phrofiad i weithredu neu roi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â ffiseg ymbelydredd sy'n berthnasol i achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol ym maes radiolog ddiagnostig, meddygaeth niwclear a radiotherapi, y mae awdurdod cymwys yn cydnabod ei gymhwysedd yn hyn o beth. Mae RhYĪ(CM) yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob cyflogwr sy'n gyfrifol am achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol benodi arbenigwr ffiseg feddygol addas.

- Gwelsom arweinyddiaeth weladwy a chefnogol yn cael ei darparu gan uwch staff.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gweithredu trefniadau i goladu adborth cleifion yn rheolaidd ar y gwasanaethau a ddarperir yn yr adran
- Sicrhau bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal, er mwyn caniatáu nodi a monitro anghenion hyfforddi a datblygu
- Sicrhau bod yr holl staff gyda'r hyfforddiant gofynnol cyfredol
- Archwilio a nodi gweithredoedd i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd gwahaniaethu posibl.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 1 Hydref 2009. Cafodd ei ailenwi'n Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn dilyn trosglwyddo Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae'n darparu gwasanaethau iechyd sylfaenol, cymunedol, ysbyty ac iechyd meddwl i bobl o siroedd Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae'r bwrdd iechyd yn ei gyfanrwydd yn darparu gwasanaethau i boblogaeth o oddeutu 450,000 o bobl.

Mae'r Adran Meddygaeth Niwclear yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg (yr ysbyty) ger Llantrisant yn cynnwys offer gan gynnwys camera gama², calibradwyr dosau³ a stiliwyr gama⁴. Mae'r adran yn cyflogi nifer o staff gan gynnwys Radiograffwyr a Radiolegwyr Ymgynghorol.

Mae gan yr adran hefyd gyngor a chymorth a ddarperir gan Arbenigwyr Ffiseg Feddygol a gyflogir gan Wasanaeth Diogelu rhag Ymbelydredd Caerdydd, rhan o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a Gwyddonwyr Clinigol a gyflogir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a Fro.

²Dyfais a ddefnyddir i ddelweddu'r ymbelydredd a allyrrir o gorff claf ar ôl rhoi cyffur radiofferyllol iddynt yw camera gama.

³Mae'r calibradwr dosau yn siambr ïoneiddio llawn nwy a ddefnyddir mewn meddygaeth niwclear i fesur faint o ymbelydredd i'w roi i gleifion.

⁴Offeryn a ddefnyddir i ganfod ymbelydredd mewn cleifion yw stiliwr gama. Fe'i cynlluniwyd yn bennaf i'w ddefnyddio mewn llawfeddygaeth.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom gasglu barn cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion am eu profiadau wrth fynychu'r adran.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion a chanfuom fod staff yn trin cleifion mewn modd caredig, parchus a phroffesiynol.

Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau digonol ar waith ar y cyfan i ddiwallu anghenion cyfathrebu cleifion sy'n mynychu'r adran.

Mae angen i'r gwasanaeth weithredu proses i gasglu adborth ar brofiad cleifion fel mater o drefn a sicrhau bod canfyddiadau a chamau gweithredu dilynol yn cael eu rhannu â chleifion a staff.

Cyhoeddodd AGIC arolygon ar-lein ac ar bapur er mwyn cael barn cleifion ar y gwasanaethau a ddarperir yn adran meddygaeth niwclear yr ysbyty. Derbyniwyd cyfanswm o 20 holiadur wedi'u llenwi, ac ni atebodd pob ymatebydd yr holl gwestiynau. Gofynnwyd i gleifion yn yr holiadur raddio eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Roedd pob un o'r 20 a ymatebodd yn ystyried bod y gwasanaeth yn 'dda iawn'. Yng ngeiriau'r cleifion:

“Gwasanaeth rhagorol”

“Roedd y staff yn broffesiynol ac yn gwrtais iawn.”

Fe wnaeth AGIC hefyd gyhoeddi arolwg ar-lein i gael barn staff ar yr adran feddygaeth niwclear yn yr ysbyty. Cawsom gyfanswm o ddeg ymateb gan staff yr ysbyty. Ni atebodd pob ymatebydd yr holl gwestiynau.

Cadw'n iach

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos ym mhrif ardal aros yr adran ac yn ardal aros yr adran meddygaeth niwclear, yn manylu ar fuddion a risgiau'r gwahanol fathau o gysylltiadau meddygol i ymbelydredd ìoneiddio. Roedd rhywfaint o wybodaeth ar gael hefyd mewn perthynas â sut y gallai cleifion wella

eu hiechyd a'u llesiant eu hunain a oedd yn cynnwys cymorth i roi'r gorau i ysmegu. Oherwydd materion posib yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau, dywedwyd wrthym fod yr holl daflenni a oedd yn cael eu harddangos yn flaenorol yn y dderbynfeydd wedi'u tynnu. Dim ond posteri y gellid eu sychu'n lân y gellid eu harddangos. Fe'n hysbyswyd bod cynlluniau ar waith i osod hysbysfwrdd newydd yn y brif ardal aros ac i gynnig taflenni i'r cleifion.

Roedd posteri yn cael eu harddangos yn glir yn gofyn i unigolion a oedd neu a allai fod yn feichiog neu'n bwydo ar y fron hysbysu aelod o staff. Mae hwn yn ofyniad rheoliadol ac mae'n bwysig i hyrwyddo diogelwch cleifion. Gwelsom bosteri am y risg ymbelydredd y gallai cleifion ei beri i eraill am gyfnod byr yn dilyn eu triniaeth. Cynghorwyd cleifion i osgoi cyswllt agos â phlant ac unigolion a oedd yn feichiog. Gwelsom bosteri gwybodaeth penodol am feddyginiaeth niwclear yn cael eu harddangos yn yr ardal aros a'r brif goridor yn yr adran. Arddangoswyd posteri ychwanegol mewn perthynas â gweithdrefnau radioleg cyffredinol trwy'r adran.

Gofal ag urddas

Gwelsom fod staff yn trin cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd. Cytunodd yr holl gleifion a lenwodd holiadur eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan staff yr ysbyty ac roeddent yn teimlo eu bod bob amser yn gallu cynnal eu preifatrwydd, eu hurddas a'u gwyleidd-dra eu hunain yn ystod eu hapwyntiadau. Roedd hyn yn cynnwys yr holl gleifion a ymatebodd i'r cwestiwn gan ddweud bod staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad.

Er na welsom gleifion yn cael eu triniaethau, gwelsom staff yn cyfarch cleifion mewn modd cyfeillgar. Roedd staff yn ymwybodol o barchu preifatrwydd ac urddas cleifion a gwelsom fod drysau i ystafelloedd triniaeth ar gau wrth eu defnyddio. Hefyd, arddangoswyd arwyddion i nodi a oedd archwiliad yn y broses ai peidio, ac i beidio â mynd i mewn.

Esboniodd staff fod cleifion meddygaeth niwclear fel arfer yn aros yn eu dillad eu hunain yn ystod eu triniaeth. Roedd ystafelloedd newid y gellir eu cloi ar gael ger yr ardal aros meddygaeth niwclear i gleifion newid eu dillad, os oedd angen.

Roedd prif ardal aros yr adran wedi'i haildrefnu i ganiatáu cadw pellter cymdeithasol rhwng cleifion sy'n aros. Roedd nifer gyfyngedig o seddi ar gael yn yr ardal hon. Cadarnhaodd uwch-reolwyr fod cynlluniau ar waith i osod cadeiriau newydd a hefyd i osod paneli plastig rhwng cadeiriau, er mwyn caniatáu seddi ychwanegol i gleifion yn yr ardal.

Cadarnhaodd uwch-reolwyr eu bod yn caniatáu i un claf yn unig (neu ddau os oedd aelod o'r teulu gyda nhw) aros yn yr ardal aros meddygaeth niwclear.

Esboniodd staff y byddai cleifion yn cael eu cludo i ystafell ar wahân i wirio eu manylion personol cyn dechrau eu triniaeth.

Ni chlywsom unrhyw sgysiau sensitif a gynhaliwyd yn yr adran yn ystod ein hymweliad. Fe'n hysbyswyd bod ystafelloedd ar gael i staff gael sgysiau preifat â chleifion. Cadarnhaodd yr holl gleifion eu bod yn gallu siarad â staff am eu gweithdrefn neu eu harchwiliad heb gael eu clywed gan bobl eraill.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â'r cyfarwyddiadau a'r wybodaeth ysgrifenedig y dylid eu darparu i gleifion cyn iddynt gael diagnosis gyda sylweddau ymbelydrol. Darparwyd enghraifft o'r dogfennau ysgrifenedig a anfonwyd at gleifion ynghyd â'u llythyr apwyntiad fel tystiolaeth. Roedd y wybodaeth y manylir arni yn y dogfennau hyn yn cynnwys amlinellid byr o'r weithdrefn, y gofynion yn dilyn y weithdrefn, a gwybodaeth yn ymwneud â beichiogrwydd a bwydo ar y fron.

Yn ogystal â hyn, roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith mewn perthynas â darparu gwybodaeth lafar ddigonol i gleifion ynghylch y buddion a'r risgiau dod i gysylltiad ag ymbelydredd. Roedd y weithdrefn hon yn nodi'r camau i'w cymryd gan staff i sicrhau bod cleifion yn cael y lefel ofynnol o wybodaeth, a hefyd yn darparu datganiad ansoddol i staff ei ddefnyddio mewn sgysiau â chleifion cyn eu cysylltiad ag ymbelydredd.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r wybodaeth a roesant i gleifion ar lafar ynghylch buddion a risgiau'r cysylltiad ag ymbelydredd. Fe wnaethant ddisgrifio sut y byddent yn egluro bod y weithdrefn yn cynnwys lefelau bach o ymbelydredd. Fe wnaethant egluro bod risgiau cysylltiedig ond bod y rhain yn fach a bod eu meddyg yn credu bod y budd yn gorbwyso'r risg fach hon. Gallai staff gymharu'r dos o ymbelydredd o ymchwiliadau meddygaeth niwclear i'r cysylltiad cyfatebol o ymbelydredd cefndirol. Roedd cymorth ar gael gan radiolegwyr ymgynghorol neu Arbenigwyr Ffiseg Feddygol os oedd angen.

Dywedodd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cymryd cymaint o ran ag yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch eu harchwiliad. Dywedodd cleifion hefyd eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir am risgiau a buddion hopsiynau eu harchwiliad. Dywedodd pob claf wrthym hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth ar sut i ofalu amdanynt eu hunain yn dilyn eu harchwiliad. Fodd bynnag, dim ond wyth o'r 19 o gleifion a ymatebodd i'r cwestiwn a ddywedodd eu bod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig am bwy i gysylltu â nhw i gael cyngor am unrhyw ôl-ffeithiau o unrhyw archwiliadau a gawsant.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth ysgrifenedig, lle bo hynny'n berthnasol, ar bwy i gysylltu â nhw i gael cyngor am unrhyw ôl-ffeithiau o unrhyw driniaethau a gawsant.

Cyfathrebu'n effeithiol

Fe'n hysbyswyd bod system ddolen sain ar gael ym mhrif dderbynfa'r adran, i gynorthwyo cleifion sy'n gwisgo cymhorthion clyw wrth gyfathrebu â staff. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y gellid gwneud trefniadau ychwanegol, lle bo angen, pe bai gan gleifion unrhyw ofynion cyfathrebu eraill. Cadarnhaodd staff fod ganddynt fynediad at wasanaethau cyfieithu i gynorthwyo pe bai claf yn mynychu'r uned yn methu â chyfathrebu yn Saesneg. Fe'n hysbyswyd bod staff yn gallu archebu cyfieithydd ar gyfer apwyntiad y claf.

Roedd mwyafrif yr wybodaeth a arddangoswyd yn yr adran ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fe'n hysbyswyd bod rhai radiograffwyr Cymraeg yn gweithio yn yr adran radioleg. Gwelsom hefyd boster gyda symbol Cymraeg yn cael ei arddangos i helpu darparu 'Cynnig Rhagweithiol'⁵.

Gofal amserol

Dywedodd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur wrthym ei bod hi'n 'hawdd iawn' neu'n 'weddol hawdd' i drefnu apwyntiad ar gyfer eu triniaeth neu eu harchwiliad. Dywedodd 15 o gleifion eu bod wedi aros llai na 15 munud i gael eu triniaeth neu eu harchwiliad, ac arhosodd pump rhwng 15 a 30 munud.

Roedd y cleifion yn cyrraedd prif dderbynfa'r adran radioleg ar gyfer eu hapwyntiad. Gwelsom fod cleifion wedyn yn cael eu hebrwng neu yn cael eu cyfeirio at yr adran meddygaeth niwclear. Ar ddiwrnodau ein harolygiad, er inni sylwi bod adegau lle roedd y brif dderbynfa'n brysur, roedd yn ymddangos bod cleifion yn cael eu gweld yn weddol brydlon. Ni wnaethom glywed cleifion yn cael gwybod am amseroedd aros gan staff y dderbynfa wrth gyrraedd yr adran. Fodd

⁵ Yn syml, ystyr 'Cynnig Rhagweithiol' yw darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Dylai'r Gymraeg fod yr un mor weladwy â'r Saesneg.

bynag, ni nodwyd cleifion yn aros am gyfnodau sylweddol cyn cael eu gweld gan aelod o'r brif adran radioleg.

Fe'n hysbyswyd bod trefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu'n rheolaidd wrth gyrraedd yr adran os oedd hi'n debygol y byddai oedi sylweddol i'w hamser apwyntiad a drefnwyd. Yn yr adran meddygaeth niwclear, dywedodd staff wrthym eu bod yn anelu at gadw at amser apwyntiad y claf. Roedd hysbysiad yn yr ardal aros meddygaeth niwclear yn cynghori cleifion i roi gwybod i aelod o staff os oeddent wedi bod yn aros am fwy na 30 munud.

Gofal unigol

Hawliau pobl

Dywedodd bron pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur ei bod hi'n 'hawdd iawn' neu'n 'weddol hawdd' dod o hyd i'w ffordd i'r adran. Gwnaethom nodi bod cyfeiriadau o'r brif dderbynfa yn glir a bod arwyddion dwyieithog.

Dywedodd naw o'r deg claf a atebodd y cwestiwn eu bod yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg iawn (waeth beth fo'u hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol).

Dywedodd saith claf a atebodd y cwestiwn mai Saesneg oedd eu iaith ddewisol, a dywedodd un claf mai Cymraeg oedd ei iaith ddewisol. Dywedodd pob un ohonynt eu bod yn gallu cyfathrebu â staff yn eu iaith ddewisol a bod gwybodaeth gofal iechyd ar gael yn eu iaith ddewisol.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y bwrdd iechyd drefniadau ar waith i gleifion roi adborth am eu profiadau, ac i nodi unrhyw bryderon am eu gofal a'u triniaeth. Gwelsom gardiau adborth cleifion y bwrdd iechyd ar gael yn y brif dderbynfa. Roedd y cardiau hyn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg wrth ymyl blwch dan glo ar y wal i ganiatáu i gleifion gyflwyno eu sylwadau yn gyfrinachol.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr y gwnaethom siarad â nhw fod arolygon cleifion adrannol blynyddol wedi'u cwblhau cyn y pandemig. Fodd bynnag, ni ddangoswyd gwybodaeth mewn perthynas â sut roedd y gwasanaeth wedi dysgu neu wedi gwella yn dilyn yr adborth a dderbyniwyd gan gleifion. Roedd cynlluniau ar y gweill i gael bwrdd tair rhan ym mhrif ardal aros y dderbynfa, a fyddai'n cynnwys gwybodaeth am yr adborth a dderbyniwyd.

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y trefniadau sydd ar waith i ymateb i unrhyw bryderon llafar a godir gan gleifion. Fe'n hysbyswyd bod ymdrechion wedi'u gwneud, lle bo hynny'n bosibl, i geisio datrys y materion gyda'r claf yn

gyflym ac yn effeithlon. Lle nad oedd hyn yn bosibl, dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu cyfeirio at reolwyr adrannol a phroses bryderon y bwrdd iechyd.

Disgrifiodd uwch staff y dulliau ar gyfer delio â chwynion. Roedd ffurflen pryderon yn y fan a'r lle a ddefnyddiodd y bwrdd iechyd. Y nod oedd ceisio delio â'r gŵyn yn lleol gan ddefnyddio ffurflenni datrys cwynion yn gynnar. Byddai pryderon ffurfiol yn cael eu hanfon ymlaen i'r safleoedd perthnasol i staff orfod ymchwilio iddynt a darparu gwybodaeth i ymateb i'r achwynydd. Roedd y tîm pryderon diogelwch cleifion o fewn y bwrdd iechyd yn nodi bod rhaid ymateb i'r pryder o fewn dau ddiwrnod. Byddai'r claf wedyn yn cael ei ddiweddarau gyda chanlyniadau'r gŵyn, maes o law.

Roedd taflenni gwybodaeth a phoster ar gael yn yr adran mewn perthynas â gweithdrefn gwynion Cymru gyfan y GIG, o'r enw Gweithio i Wella.⁶ Roedd poster hefyd yn tynnu sylw at y cyngor iechyd cymunedol lleol⁷.

Cytunodd naw o'r deg aelod o staff a ymatebodd i'r holiadur y casglwyd adborth am brofiad cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn eu hadran. Dywedodd chwech o wyth aelod o staff a fynegodd farn eu bod yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar adborth am brofiad cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn eu hadran. Dywedodd un:

“Mae'r tîm radioleg yn darparu adborth, ond nid oes unrhyw adborth rhyngadrannol nag adborth ar y ward oni bai bod y tîm radioleg wedi bod yn gysylltiedig â'r digwyddiad.”

Dywedodd wyth o'r naw ymatebydd a fynegodd farn, bod adborth gan gleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus yn eu hadran.

⁶ 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

⁷Cyngor iechyd cymunedol yw 'corff gwarchod' iechyd statudol annibynnol sy'n cwmpasu'r bwrdd iechyd ac sy'n monitro ansawdd gwasanaethau iechyd lleol. Mae'n argymhell gwelliannau i safonau gofal iechyd, yn darparu gwasanaeth ymholi ac eiriolaeth i gynghori cleifion sydd am wneud cwyn, yn annog y gwasanaeth iechyd i wneud newidiadau mewn partneriaethau ac mewn ymgynghoriad â phobl leol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:

- Mae trefniadau ar waith i gasglu adborth cleifion yn rheolaidd ar y gwasanaethau a ddarperir yn yr adran
- Mae systemau ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff a chleifion am yr adborth ar brofiad cleifion a dderbynnir gan y gwasanaeth, ynghyd ag unrhyw gamau dilynol a gymerwyd.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, canfuom gydymffurfio da â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Canfuom fod trefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion sy'n ymweld â'r adran meddygaeth niwclear.

Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau priodol wedi'u gweithredu gan y gwasanaeth i ganiatáu atal heintiau a dihalogi yn yr adran yn effeithiol.

Gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella, gan gynnwys yr angen i nodi'r holl ganllawiau atgyfeirio o fewn gweithdrefnau, gwella manylion o fewn canllawiau awdurdodi dirprwyedig, a sicrhau cysondeb o ran gofalwyr a chysurwyr.

Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017

Cyn ein harolygiad, roedd AGIC yn ei gwneud hi'n ofynnol i uwch staff yn yr adran gwblhau a chyflwyno holiadur hunanasesu. Roedd hyn er mwyn darparu AGIC â gwybodaeth fanwl am yr adran, yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau allweddol y cyflogwr ar waith, mewn perthynas â RhYŷ(CM) 2017. Defnyddiwyd y ddogfen hon i lywio'r dull arolygu.

Dyletswyddau'r cyflogwr

Adnabod cleifion

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig gyfredol i staff ei dilyn i adnabod cleifion yn gywir cyn eu cysylltiad ag ymbelydredd. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod y claf cywir yn cael y cysylltiad ag ymbelydredd cywir, yn unol â gofynion RhYŷ(CM) 2017. Roedd y weithdrefn yn nodi bod disgwyl i staff gadarnhau enw llawn, dyddiad geni a chyfeiriad cartref y claf, a elwir yn ddynodwyr unigryw.

Roedd y dull hwn yn unol â chanllawiau cyfredol y DU⁸. Disgrifiodd y weithdrefn hefyd ddulliau amgen y gallai staff eu defnyddio pe na bai cleifion yn gallu cadarnhau eu hunaniaeth eu hunain ar lafar. Mae'r weithdrefn hefyd yn nodi'r broses y dylai staff ei dilyn wrth gynnal gwiriadau adnabod ar gyfer cleifion pediatreg.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu nodi'n glir y camau roeddent yn eu cymryd fel mater o drefn i adnabod cleifion yn gywir cyn archwiliadau yn yr adran. Roedd staff yn gallu disgrifio'r weithdrefn gywir yn gyson ac yn gywir i adnabod cleifion. Yn ogystal â gwirio'r tri dynodwr unigryw, byddai'r staff yn trafod y weithdrefn gyda'r claf i ofyn am eu cyflwr clinigol a sicrhau eu bod yn deall pam eu bod yn cael yr archwiliad penodol. Disgrifiodd staff nifer o adnoddau neu offer ychwanegol a oedd ar gael i alluogi adnabod cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys y gwasanaethau cyfieithu, ysgrifennu gwybodaeth i lawr, defnyddio'r ddolen glyw neu ddefnyddio band arddwrn fel dull adnabod ar gyfer cleifion mewnol. Dywedodd yr holl gleifion a ymatebodd i'n harolwg y gofynnwyd iddynt gadarnhau eu manylion personol cyn yr archwiliad.

Unigolion sydd â'r gallu i gael plant (ymholiadau yn ymwneud â beichiogrwydd)

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â'r broses ar gyfer pennu a oedd unigolyn a oedd o fewn oedran i gael plentyn yn feichiog neu'n bwydo o'r fron, a hynny cyn cael archwiliad meddygaeth niwclear. Nod y weithdrefn hon oedd sicrhau bod ymholiadau o'r fath yn cael eu gwneud mewn modd safonol a chyson.

Roedd y weithdrefn yn nodi'r broses y dylai staff ei dilyn yn dibynnu ar yr ymatebion yr unigolyn. Roedd y manylion yn cynnwys ystod oedran y cleifion y dylid eu gofyn am feichiogrwydd neu fwydo o'r fron, a oedd rhwng 12 a 55 oed. Yn ogystal â gweithdrefn y cyflogwr, roedd siart llif ar gyfer ymholiadau yn ymwneud â beichiogrwydd ar gael i staff ei dilyn.

Fel y nodwyd yn flaenorol, cadarnhaodd staff yr anfonwyd llythyr ysgrifenedig am eu hapwyntiad at gleifion cyn unrhyw archwiliad yn yr adran. Roedd y wybodaeth a gynhwysir yn y llythyr hwn yn cynnwys statws beichiogrwydd ac ymholiadau yn ymwneud â bwydo ar y fron.

⁸Coleg Brenhinol y Radiolegwyr (2020); Goblygiad i ymarfer clinigol mewn delweddu diagnostig, radioleg ymyriadol a meddygaeth niwclear ddiagnostig.

Disgrifiodd staff y weithdrefn ar gyfer sefydlu statws beichiogrwydd a bwydo ar y fron yn gywir. Gofynnwyd i gleifion lofnodi ffurflen ymwadiad a sganiwyd ar RADIS. Disgrifiodd staff nifer o adnoddau neu offer ychwanegol a oedd ar gael i sefydlu statws beichiogrwydd neu fwydo ar y fron y cleifion nad oedd yn gallu ymateb i'r ymholiad hwn.

Achosion o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig gyfredol ar waith mewn perthynas â chysylltiadau anfeddygol i ymbelydredd⁹ a gynhaliwyd o fewn y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd na chynhaliwyd cysylltiadau anfeddygol i ymbelydredd yn yr adran meddygaeth niwclear.

Canllawiau atgyfeirio

Roedd y canllawiau atgyfeirio a oedd ar waith yn defnyddio cyhoeddiad iRefer Coleg Brenhinol y Radiolegwyr. Roedd hwn yn nodi'r canllawiau atgyfeirio ac yn darparu arwydd o'r dos o ymbelydredd ar gyfer unigolion sydd am atgyfeirio claf ar gyfer delweddu. Fe'n hysbyswyd bod y canllaw hwn ar gael yn rhwydd i'r holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol a gyflogir gan yr ysbyty, a'i fod hefyd ar gael ar safle mewnwyd y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth yn y ddogfen hon a oedd yn berthnasol i biopsi nod lymff sentinel,¹⁰ a gynhaliwyd yn yr ysbyty. Felly mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod canllawiau atgyfeirio yn cael eu hysgrifennu i gwmpasu'r weithdrefn hon mewn meddygaeth niwclear.

Gwnaethom nodi bod gan ymarferwyr meddygol hawl i atgyfeirio am ymchwiliadau meddygaeth niwclear. Cawsom hefyd y rhestr lawn o atgyfeiriwyr anfeddygol â hawl. Gwnaethom wirio bod sampl o atgyfeiriadau a dderbyniwyd ar gyfer sganiau meddygaeth niwclear wedi'u gwneud gan unigolion â hawl briodol.

Roedd yr holiadur hunanasesu a gwblhawyd, yn rhestru'r broses i'w dilyn pe bai'r adran a'r atgyfeiriwr yn canslo. Fodd bynnag, ni wnaeth y polisi atgyfeirio

⁹ Mae achosion o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol yn cynnwys y rhai ar gyfer asesu iechyd at ddibenion cyflogaeth, dibenion mewnffudo a dibenion yswiriant. Gellir cyflawni'r rhain hefyd i nodi gwrthrychau cudd yn y corff.

¹⁰Prawf yw biopsi nod lymff sentinel i ddod o hyd i'r nod lymff cyntaf y gall canser ledaenu iddo. Defnyddir lliw ymbelydrol i helpu'r llawfeddyg i nodi a chael gwared ar y nodau lymff. Yna, caiff y nodau sydd wedi'u tynnu eu gwirio i weld a ydyn nhw'n cynnwys celloedd canser.

ddisgrifio'r broses ar gyfer canslo atgyfeiriadau. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:

- Ysgrifennir canllawiau atgyfeirio ar gyfer biopsïau nod lymff sentinel
- Mae'r polisi atgyfeirio yn cael ei ddiweddarau i gynnwys y broses ar gyfer canslo atgyfeiriadau.

Dyletswyddau ymarferwyr, gweithredwyr ac atgyfeirwyr

Roedd gan y cyflogwr system ar waith i nodi gwahanol rolau RhYİ(CM) y gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag atgyfeirio, cyfiawnhau ac cynnal archwiliadau meddygaeth niwclear. Roedd y Polisi Diogelwch Ymbelydredd İoneiddio yn manylu ar y rolau a'r cyfrifoldebau dyletswydd penodol yn unol ag RhYİ(CM) , sef yr atgyfeiriwr¹¹, yr ymarferydd¹² a'r gweithredwr¹³. Amlinellodd y polisi hwn hefyd y prosesau a ddefnyddir gan y cyflogwr i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, iechyd a diogelwch pawb a allai fod yn agored i'r peryglon sy'n deillio o ddefnyddio ymbelydredd İoneiddio.

Er bod y siart lif o fewn y polisi yn dangos bod gan yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol¹⁴ hawl gan Gyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwasanaethau Iechyd, nid

¹¹ O dan RhYİ(CM), mae atgyfeiriwr yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i atgyfeirio unigolion i ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol.

¹² O dan RhYİ(CM), mae ymarferydd yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gymryd cyfrifoldeb am achos unigol o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol. Cyfiawnhau achosion o gysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol yw prif swyddogaeth yr ymarferydd.

¹³ O dan RhYİ(CM), mae gweithredwr yn unrhyw unigolyn sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gyflawni'r agweddau ymarferol ar gynnal achos o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol.

¹⁴ Mae arbenigwr ffiseg feddygol yn unigolyn sydd â gwybodaeth, hyfforddiant a phrofiad i weithredu neu roi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â ffiseg ymbelydredd sy'n berthnasol i achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol ym maes radiolog ddiagnostig, meddygaeth niwclear a radiotherapi, y mae awdurdod cymwys yn cydnabod ei

oedd hyn wedi'i restru yn y cyfrifoldebau. Roedd Gweithdrefn A RhŶI(CM) Corfforaethol yn nodi bod hawl gan weithredwyr (yn cynnwys Arbenigwyr Ffiseg Feddygol) ac ymarferwyr gan y Cyfarwyddwr Clinigol. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y polisi yn cael ei ddiweddarau i nodi'n glir y trefniadau cyfredol ar gyfer hawl a phenodiad yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol.

Cadarnhaodd y staff fod trefniadau ar waith ar gyfer sefydlu, a oedd yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau sy'n ofynnol i gydymffurfio â nhw o dan RhŶI(CM). Roedd y staff yn cael gwybod am ddiweddariadau, a lle y bo'n berthnasol, roeddent yn llofnodi i ddweud eu bod wedi'u derbyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y Polisi Diogelu rhag Ymbelydriadau Ïoneiddio yn cael ei ddiweddarau i nodi'n glir y trefniadau cyfredol ar hawl a phenodiad yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol.

Cyfiawnhad ar gyfer achosion unigol o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol

Roedd set o weithdrefnau cyflogwyr ategol ar gyfer yr adran feddygaeth niwclear, a oedd yn cynnwys cyfiawnhad dros ddod i gysylltiad ag ymbelydredd. Roedd yr holl atgyfeiriadau ar gyfer meddygaeth niwclear ar bapur. Roedd yr holiadur hunanasesu yn nodi bod cyfiawnhad yn cael ei gofnodi yn y lle priodol ar y ffurflen gais radioleg. Roedd y ffurflen hefyd yn cynnwys dyddiad a llofnod yr ymarferydd neu'r gweithredwr awdurdodi sy'n gweithredu o dan ganllaw awdurdodiad dirprwyedig.

Gwnaethom drafod y cyfiawnhad bod gofalconwyr a chysurwyr yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd ¹⁵ gydag uwch aelodau o staff, yn cynnwys ystyried statws beichiogrwydd a lefel y gofal yr oedd ei angen ar glaf fel rhan o'r penderfyniad dros gyfiawnhad. Roedd gweithdrefn benodol ar waith yn ymwneud â

gymhwysedd yn hyn o beth. Mae RhŶI(CM) yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob cyflogwr sy'n gyfrifol am achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol benodi arbenigwr ffiseg feddygol addas.

¹⁵ Caiff gofalconwyr a chysurwyr eu diffinio yn RhŶI(CM) 2017 fel 'unigolion sy'n ymwybodol ac yn fodlon dod i gysylltiad ag ymbelydredd Ïoneiddio drwy helpu a chysuro unigolion sydd wedi neu sydd wrthi'n dod i gysylltiad ag ymbelydredd, ac eithrio yn rhinwedd ei swydd.

meddygaeth niwclear mewn perthynas â chyfyngiadau dos¹⁶ a chanllaw ar gyfer gofalwyr a chysurwyr sy'n dod i gysylltiad ag ymbelydredd. Roedd y weithdrefn yn nodi'r broses y dylai staff ei dilyn i gyfiawnhau ac awdurdodi'r achosion hyn o gysylltiad ag ymbelydredd. Yn ogystal, roedd y weithdrefn yn sicrhau bod yr unigolyn yn derbyn gwybodaeth ddigonol, yn cynnwys y buddion a'r risgiau. Roedd radiograffyddion wedi cael hawl briodol i weithredu fel ymarferwyr a chyfiawnhau achosion o gysylltiad ag ymbelydredd i ofalwyr a chysurwyr. Gellid lleihau'r dos i nodi gwerth mwy realistig o ran y dosau a amcangyfrifir yng ngweithdrefnau'r cyflogwr.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y cyfyngiadau dos a bennwyd ar gyfer achosion o gysylltiad ag ymbelydredd i ofalwyr a chysurwyr, yn y weithdrefn berthnasol, yn cael ei leihau i werth mwy realistig.

Optimeiddio

Dyweddodd y staff y gwnaethom siarad â nhw bod yr holl chwistrelli sy'n cynnwys meddyginiaethau i gleifion yn cael eu mesur cyn iddyn gael eu rhoi. Roedd y calibradwyr dos a ddefnyddiwyd wedi cael profion rheoli ansawdd rheolaidd er mwyn sicrhau bod y mesuriadau yn fanwl gywir. Dywedwyd wrthym fod y rhan fwyaf o'r lefelau cyfeirio diagnostig lleol wedi'u nodi ar lefelau is na'r lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol. I blant, cafodd y gweithgarwch hwn ei leihau'n gymesur o'r lefelau cyfeirio diagnostig lleol i oedolion yn unol â phwysau'r claf.

Dyweddwyd wrthym hefyd gan uwch aelodau o staff fod gwybodaeth ysgrifenedig, fel y disgrifiwyd uchod, yn cael ei rhoi i gleifion gyda'u llythyrau apwyntiad i ddisgrifio'r weithdrefn. Roedd hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth i gleifion am risgiau a buddion y weithdrefn ac yn disgrifio unrhyw gyfyngiadau ar ôl y prawf. Byddai'r staff yn cynghori oedolion i osgoi cyswllt estynedig ac agos gyda phlant a phobl feichiog am weddill y dydd. Hefyd, byddai'r staff yn cynghori cleifion i yfed

¹⁶ Cyfyngiad ar y dos arfaethedig i unigolion a allai ddod o ffynhonnell ddiffiniedig, i'w defnyddio yn ystod y cam cynllunio i ddiogelu rhag ymbelydredd lle bynnag mae achos o weithredu yn y dull gorau posibl

digon o hylif er mwyn helpu i ysgarthu'r cyffuriau radiofferyllol¹⁷. Roedd y wybodaeth ysgrifenedig hon yn bodloni gofynion y rheoliad perthnasol.

Lefelau cyfeirio diagnostig

Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith mewn perthynas â defnyddio ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig. Roedd y weithdrefn radioleg yn nodi bod lefelau cyfeirio diagnostig yn cael eu canfod ar gyfer pob archwiliad nodweddiadol ond nad oedd y weithdrefn hon yn ystyried sut y caiff lefelau cyfeirio diagnostig lleol eu canfod mewn meddygaeth niwclear. Roedd y gweithdrefnau cyflogwr ategol ar gyfer yr adran feddygaeth niwclear yn nodi bod y lefelau cyfeirio diagnostig lleol yn cael eu canfod ochr yn ochr â'r lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol neu'n is, mewn ymgynghoriad â'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol, a chyflenwr y cyffuriau radiofferyllol.

Gwelsom fod lefelau cyfeirio diagnostig lleol yn cael eu harddangos ar y wal yn yr ystafelloedd meddygaeth niwclear. Roedd y lefelau cyfeirio diagnostig ochr yn ochr â'r lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol neu'n is. Roedd chwistrelli unigol yn cael eu mesur ar ôl cael eu derbyn i'r adran. Roedd gweithgarwch yn cael ei addasu ar gyfer dirywiad ymbelydrol¹⁸ hyd at yr amser gweinyddu. Defnyddiodd y staff label ludiog ar becyn y chwistrell a'i hatodi i'r ffurflen atgyfeirio. Roedd archwiliadau diweddar yn yr adran feddygaeth niwclear yn dangos bod amrywiad yn y gweithgarwch gweinyddu ac roedd hyn yn cael ei archwilio ymhellach gyda chymorth yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol a Gwyddonydd Clinigol.

Pediatreg

Roedd cyffuriau radiofferyllol i blant yn cael eu cadw mor isel â phosibl gan yr ymarferydd a'r gweithredwr. Roedd y gweithgarwch gweinyddu yn cael ei raddio i lawr yn unol â nodiadau canllaw'r Pwyllgor Cynghori ar Weinyddu Sylweddau Ymbelydrol ¹⁹fel y gweithredwyd gan Adran Radiofferylliaeth Bwrdd Iechyd

¹⁷ Mae cyffuriau radiofferyllol yn gyfansoddion ymbelydrol a roddir i'r claf, ac a gaiff eu monitro drwy ddyfeisiau delweddu penodol, at ddibenion diagnosis a therapiwtig.

¹⁸ Dirywiad ymbelydrol yw'r broses lle mae niwclews atomig ansefydlog yn colli ynni drwy ymbelydredd. Ystyrir bod deunydd sy'n cynnwys niwclei ansefydlog yn ymbelydrol.

¹⁹ Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Weinyddu Sylweddau Ymbelydrol yn bwyllgor arbenigol ar gyfer y Deyrnas Unedig, wedi'i noddi gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r pwyllgor yn

Prifysgol Caerdydd a'r Fro²⁰. Roeddent yn cael eu cyfrif yn rheolaidd yn seiliedig ar bwysau'r plentyn ond os nad oedd hwnnw ar gael, byddai'n cael ei gyfrif yn defnyddio pwysau cyfartalog ar gyfer plentyn o'r oedran hwnnw gan ddefnyddio siart Sefydliad Iechyd y Byd. Roedd y ffactorau graddio wedi'u rhestru yn atodiad y gweithdrefnau atodol ar gyfer meddygaeth niwclear. Roedd archwiliadau diweddar yn yr adran feddygaeth niwclear yn dangos bod rhai gweithgareddau gweinyddu ar gyfer cleifion pediatrig yn isel. Dywedwyd wrthym y gallai hyn fod oherwydd nad oedd y siartiau Sefydliad Iechyd y Byd yn adlewyrchu'r boblogaeth bediatrig leol. Roedd hyn yn cael ei archwilio ymhellach gyda chymorth yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol a Gwyddonydd Clinigol.

Gwerthuso clinigol

Roedd gweithdrefn ar waith gan gyflogwyr a oedd yn disgrifio'r broses o ran gwneud gwerthusiad clinigol wrth ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol. Mae'n ofyniad o dan RhŶI(CM) 2017, fod pob achos o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol yn cael eu gwerthuso'n glinigol gan weithredwr â hawl a bod cofnod o'r gwerthusiad yn cael ei gofnodi. Felly, rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod trefniadau gwerthuso clinigol digonol ar waith. Gwnaethom adolygu detholiad o gofnodion cleifion, a gwelsom fod gan bob archwiliad werthusiad clinigol (adroddiad) a wnaed gan aelod perthnasol o staff. Roedd y gweithdrefnau atodol ar gyfer meddygaeth niwclear yn cadarnhau ei bod yn ofynnol i lawfeddygon gofnodi canfyddiadau clinigol o weithdrefnau nodau sentinel yn nodiadau'r claf.

Roedd y weithdrefn hefyd yn nodi bod pob atgyfeiriwr anfeddygol wedi'i hysbysu fod rhaid cofnodi gwerthusiad clinigol o ganlyniad yr archwiliad yn nodiadau'r cleifion. Rhaid i hyn gael ei gofnodi gan y swyddog meddygol sy'n goruchwyllo neu'r atgyfeiriwr anfeddygol a gafodd yr adroddiad ac a weithredodd arno. Roedd y datganiad hwn wedi'i gynnwys yn yr holl brotocolau ar gyfer gwneud atgyfeiriad anfeddygol. Nid oedd modd i ni wirio nodiadau'r cleifion i gadarnhau bod hyn wedi digwydd, oherwydd câi'r nodiadau hyn eu ffeilio yn yr adran cofnodion meddygol.

cynghori'r llywodraeth ar y defnydd o sylweddau ymbelydrol ar bobl a thrwyddedau i gyflogwyr ac ymarferwyr.

²⁰ Mae radiofferylliaeth yn cynnwys paratoi deunydd ymbelydrol i'w gweinyddu i gleifion a fydd yn cael eu defnyddio i wneud diagnosis a thrin clefydau penodol mewn meddygaeth niwclear.

Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr

Roedd gan y cyflogwr stocrestr (rhestr) o'r cyfarpar a ddefnyddiwyd yn yr adran. Roedd y stocrestr yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan RhYĪ(CM) 2017. Gwelsom weithdrefn cyflogwr ar waith mewn perthynas â'r rhaglen sicrhau ansawdd. Gwelsom y rhaglen sicrhau ansawdd ar waith hefyd, yn ogystal â gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig y cyflogwr, a oedd yn gyfredol.

Roedd y dyletswyddau yn ymwneud ag offer sicrwydd ansawdd wedi'u hamlinellu o fewn cytundeb lefel gwasanaeth. Roedd hyn rhwng y bwrdd iechyd yr adran ac arbenigwyr ffiseg feddygol, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, ar gyfer darparu arbenigedd ffiseg feddygol ar gyfer meddygaeth niwclear. Roedd y cytundeb lefel gwasanaeth yn nodi bod Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn rhoi cyngor ar sicrwydd ansawdd yn unig. Gwnaethom siarad ag uwch aelodau o staff a'r arbenigwyr ffiseg feddygol a gwnaethant gadarnhau eu bod nhw hefyd yn cwblhau profion ar y camera, y calibradwyr, a'r stilwyr gama. Dywedwyd wrthym fod cynllun ar waith i adolygu cynnwys y cytundeb lefel gwasanaeth hwn y flwyddyn nesaf i adlewyrchu cyngor a'r dulliau gweithredu yn well. Nod cytundeb lefel gwasanaeth yw sicrhau bod y gwasanaethau fydd yn cael eu darparu i'r cwsmer yn unol â'r hyn y cytunwyd arnynt yn y contract. Dylid cynnwys unrhyw waith ychwanegol a wneir yn y cytundeb lefel gwasanaeth hefyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y cytundeb lefel gwasanaeth yn adlewyrchu gwaith yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol o fewn yr adran a'r bwrdd iechyd.

Gofal diogel

Mynegodd naw aelod o staff farn ar feysydd yr holiadur a oedd yn ymwneud â'r sefydliad. Dywedodd y naw mai gofal cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth oedd prif flaenoriaeth y sefydliad a bod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion neu ddefnyddwyr y gwasanaeth. Yn ogystal, cytunodd y naw ymatebydd y byddent yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio. Byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan eu sefydliad drostynt eu hunain neu ar gyfer ffrindiau neu deulu.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd yr adran wedi'i lleoli ar lawr daear yr ysbyty ac roedd mynediad gwastad drwyddi draw. Roedd hyn yn caniatáu cleifion ag anawsterau symudedd i gael mynediad at yr adran ac ymadael yn ddiogel. Ymddengys fod yr adran yn lân, mewn cyflwr da ac nid oedd peryglon amlwg ar gyfer cwmpo.

Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch staff, cleifion ac ymwelwyr. Er enghraifft, roedd arwyddion priodol a threfniadau mynediad cyfyngedig ar waith i atal pobl anawdurdodedig rhag dod i mewn i ardaloedd lle'r oedd cyfarpar meddygaeth niwclear yn cael ei ddefnyddio.

Atal a rheoli heintiau

Ar adeg ein harolygiad roedd yr amgylchedd yn lân ac yn daclus. Roedd gan yr adran aelod dynodedig o staff domestig ac oedd yn cynnal glendid yr adran ac oedd ar gael i lanhau mannau perthnasol o'r adran fel bo'r angen. Roedd trefniadau ar waith i atal heintiau a dadheintio'n effeithiol yn yr adran. Fe'n hysbyswyd bod y trefniadau hyn wedi cael eu cryfhau o ganlyniad i COVID-19.

Disgrifiodd yr uwch aelodau o staff y trefniadau glanhau sydd ar waith, gan gynnwys sicrhau bod ardaloedd perthnasol yn cael eu glanhau fel mater o drefn ar ôl pob claf, yn ogystal â threfniadau glanhau trylwyr. Gwnaethant ddweud bod y trefniadau hyn wedi golygu bod llai o gleifion yn gallu cael eu gweld o fewn meddygaeth niwclear. Dywedwyd hefyd fod llawer o gyfathrebu ar draws y gwasanaeth ers dechrau COVID-19 er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r canllawiau a'r gofynion perthnasol. Yn ystod y broses cyn sgrinio, pe bai rhywun yn ffonio ac wedi cael prawf cadarnhaol ar gyfer COVID-19, byddai penderfyniad clinigol yn cael ei wneud o ran p'un a fyddai angen i'r claf fynychu neu p'un a fyddai'n bosibl gohirio'r driniaeth. Lle nad oedd oedi'n bosibl, byddai'r staff yn amlinellu'r weithdrefn ddilynol fel bod y risg o ledaenu'r haint i staff a phobl eraill sy'n ymweld â'r ysbyty yn cael ei leihau.

Gwnaethom ofyn cwestiwn ynghylch a oedd gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â COVID-19 yn amlwg yn ystod ymweliadau cleifion. Dywedodd 19 o gleifion eu bod yn 'amlwg iawn' yn ystod eu hamser yn y lleoliad, a dywedodd bob un o'r 20 o gleifion bod y lleoliad yn 'lân iawn'. Gwnaethom hefyd holi cyfres o gwestiynau yn ymwneud â chydymffurfedd COVID-19 yn yr arolwg staff. O blith y saith ymatebwr a nododd farn, cytunodd pawb fod eu sefydliad wedi gweithredu'r holl newidiadau amgylcheddol angenrheidiol a'r newidiadau ymarfer angenrheidiol. Yn ogystal, cytunodd pawb y bu cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol a bod trefniadau dihalogi ar gyfer offer ac ardaloedd perthnasol. Un o'r sylwadau a gafwyd mewn perthynas â threfniadau COVID-19 oedd:

"Ar ddechrau'r pandemig, roedd y wybodaeth yn newid yn gyson ac roedd hyn yn achosi penbleth ...mae'r sefyllfa wedi dod yn fwy sefydlog o lawer."

Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw nodi bod cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol ar gael. Cadarnhaodd uwch aelodau o staff fod y cyfarpar diogelu personol yn cael ei storio yn yr adran a bod modd i'r staff gasglu offer ychwanegol fel bo'r angen. Yn ogystal, cawsom wybod bod yr holl staff wedi cael prawf ffitio ar gyfer masgiau perthnasol ac iddynt gael hyfforddiant mewn perthynas â gwisgo a thynnu cyfarpar²¹.

Roedd cyfleusterau ymolchi dwylo ar gael yn yr ystafelloedd chwistrellu ac yn y toiledau ger yr adran. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael yn yr adran, gan gynnwys yn y prif goridor a ger yr ystafelloedd aros.

Roedd sgriniau plastig clir wedi'u gosod ar ddesgiau'r dderbynfa i amddiffyn cleifion a staff. Roedd sticeri ar y llawr ar draws yr adran a oedd yn atgoffa pobl i gadw i'r chwith wrth gerdded drwy'r adran ac i gadw at y rheol o gadw pellter o ddau fetr oddi wrth eraill.

Gwnaethom wirio sampl o gofnodion hyfforddiant chwech aelod o staff. Er bod yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant atal a rheoli heintiau perthnasol, roedd hyfforddiant pedwar aelod o staff wedi dod i ben.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl staff wedi cael hyfforddiant atal a rheoli heintiau cyfredol hyd at y lefel ofynnol.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gan y bwrdd iechyd drefniadau ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn llesiant a diogelwch plant ac oedolion mewn perygl. Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y camau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu. Fe'n hysbyswyd bod arweiniad a chymorth diogelu ar gael ar dudalen fewnrwyd y bwrdd iechyd. Yn ogystal, roedd y manylion cyswllt ar gyfer staff arweiniol a siart lif wedi'u cynnwys yn un o weithdrefnau'r cyflogwr er mwyn i'r staff eu dilyn. Fe'n hysbyswyd hefyd bod gofyn i'r holl staff gwblhau hyfforddiant ar-lein gorfodol.

²¹ Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; Tynnu – tynnu cyfarpar diogelu personol.

Gwnaethom wirio sampl o gofnodion hyfforddiant chwech aelod o staff. Er bod yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu perthnasol, roedd yr hyfforddiant ar gyfer dau aelod o staff wedi dod i ben. Dywedodd uwch aelodau o staff wrthym eu bod wrthi'n trefnu hyfforddiant diogelu, o'r enw Hwb Diogelu Amlasiantaeth (hyfforddiant MASH)²².

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl staff wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf hyd at y lefel ofynnol.

Gofal effeithiol

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Archwiliadau clinigol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith a oedd wedi'i chynnwys yn rhaglen sicrhau ansawdd y cyflogwr. Gwelsom hefyd y rhaglen archwilio ar gyfer meddygaeth niwclear. Byddai canlyniadau'r holl archwiliadau'n cael eu trafod yn y grŵp optimeiddio delweddu. Er y dylid cynnal archwiliad bob chwe mis, dywedwyd wrthym fod yr archwiliadau wedi cael eu cwtogi yn ystod y pandemig. Roedd archwiliadau clinigol wedi cael eu trefnu a'u rheoli gan y radiograffydd arolygol gyda chymorth y gwyddonydd clinigol. Byddai'r holl ganlyniadau'n cael eu hawdurdodi gan yr arbenigwr ffiseg feddygol.

Darparwyd tystiolaeth o archwiliadau arsylwadol a RhYİ(CM) cyn yr arolygiad. Awgrymwyd meysydd eraill i wella'r archwiliadau hyn ymhellach fel rhan o drafodaeth yr arolygiad. Darparwyd archwiliadau gan arbenigwr ffiseg feddygol a lefelau cyfeirio diagnostig hefyd fel rhan o'r arolygiad. Roeddent yn ddogfennau manwl a chynhwysfawr ac yn nodi nifer o gamau gweithredu. Gwnaed cynnydd yn erbyn nifer o'r camau gweithredu hyn a gwnaed cynlluniau i ailgynnal yr archwiliadau yn y dyfodol.

Cyngor arbenigol

²² (MASH) Mae Hwb Diogelu Amlasiantaeth yn darparu asesiad aml-asiantaeth a brysbennu o bryderon diogelu - mewn perthynas â phlant ac oedolion agored i niwed. Mae'n dod â gweithwyr proffesiynol o ystod o asiantaethau at ei gilydd i dîm amlasiantaeth integredig.

Roedd staff yn gwybod pwy oedd yr arbenigwr ffiseg feddygol lleol a sut i gysylltu ag ef fel bo'r angen. Cadarnhaodd y staff hefyd ei fod yn hawdd cael cyngor gan yr arbenigwr ffiseg feddygol. Cawsom wybod arbenigwr ffiseg feddygol yn mynychu'r adran bob mis. Mae'n rhoi cyngor a chefnogaeth, ac yn ymgymryd â thasgau fel profi ansawdd yr offer, rhoi hyfforddiant i staff ac asesu dos cleifion. Yn ogystal, darparwyd tystiolaeth o'r archwiliad a wnaed gan yr arbenigwr ffiseg feddygol. Roedd y ddogfen hon yn gynhwysfawr ac yn nodi'r camau gweithredu gofynnol o ganlyniad i'r archwiliad. Roedd trafodaethau gyda staff yr adran yn dangos bod ganddynt gydberthynas gwaith da gyda'r arbenigwr ffiseg feddygol. Cawsom wybod hefyd fod y staff yn gallu cysylltu â'r arbenigwr ffiseg feddygol i gael cyngor a chymorth fel bo'r angen, ar sail ad hoc.

Cawsom gopi o dystysgrif hawlogaeth yr arbenigwr ffiseg feddygol a nodwyd nad oedd y ddogfen hon yn cynnwys cofnod o asesiad o gymhwysedd.

Ymchwil feddygol

Roedd gan yr adran weithdrefn ysgrifenedig mewn perthynas ag ymchwil feddygol ar gysylltiad ag ymbelydredd. Nid oedd hyn yn berthnasol i feddgaeth niwclear ar hyn o bryd, am nad oedd yr adran yn ymgymryd ag unrhyw ymchwil. Fodd bynnag, roedd yr adran am gadw'r weithdrefn fel opsiwn ar gyfer y dyfodol. Byddai'r weithdrefn yn elwa ar gael ei diweddarau i gynnwys gwybodaeth bellach am y weithdrefn wirioneddol a fyddai'n cael ei dilyn ar gyfer ymchwil o gysylltiad ag ymbelydredd. Yn yr un modd, roedd y weithdrefn yn cyfeirio at gynnwys y cynghorwr diogelu rhag ymbelydredd²³, ond nid oedd yn cynnwys rôl yr arbenigwr ffiseg feddygol wrth bennu cyfyngiadau na thargedau dosau. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei diweddarau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:

- Bod dystysgrif yr arbenigwr ffiseg feddygol yn cael ei chwblhau'n gywir, yn cynnwys yr asesiad o gymhwysedd.

²³ Mae cynghorwr diogelu rhag ymbelydredd yn unigolyn, neu'n gorff corfforaethol, sy'n bodloni meini prawf yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o ran cymhwysedd, ac sy'n meddu ar y profiad a'r arbenigedd gofynnol i gynghori ar ddefnydd y sefydliad o ymbelydredd ïoneiddio.

- Bod yr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymchwil o gysylltiad ag ymbelydredd yn cael ei diwygio i adlewyrchu'r weithdrefn wirioneddol a'i bod yn cynnwys cyfeiriad at rôl yr arbenigwr ffiseg feddygol.

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion atgyfeirio pedwar claf presennol. Roedd tri wedi cael eu derbyn ar y ffurflen atgyfeirio bresennol ac wedi'u cwblhau hyd at safon dda yn unol â'r polisi atgyfeirio. Roedd yr atgyfeiriad a gwblhawyd ar yr hen ffurflen yn cynnwys gwybodaeth ddigonol, yn cynnwys y gwiriadau hunaniaeth a gweinyddiaeth, yn unol â'r weithdrefn.

Roedd dau o'r atgyfeiriadau yn ymwneud â biopsi nodau lymff sentinel, gan ddefnyddio iRefer fel y canllawiau atgyfeirio. Nid oedd gwybodaeth yn y ddogfen hon sy'n berthnasol i fiopsi nodau lymff sentinel (a ddisgrifir uchod o dan yr adran ar ganllawiau atgyfeirio). Roedd yr atgyfeiriadau a welwyd yn cynnwys enghraifft gan atgyfeiriwr anfeddygol â hawl ac roeddent wedi'u cwblhau'n gywir. Gwiriwyd hefyd eu bod wedi cael yr hawl mewn ffordd briodol.

Gwnaethom adolygu sampl o dri atgyfeiriad ôl-syllol i gleifion a nodi bod y tri wedi cael eu derbyn ar y ffurflen atgyfeirio bresennol. Roeddent wedi'u cwblhau i safon dda yn unol â'r polisi atgyfeirio. Fel rhan o'r sampl hwn gwnaethom wirio i sicrhau bod tystiolaeth i ddangos bod gwiriadau am statws beichiogrwydd wedi'u cynnal a'u cofnodi gan staff. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gan un atgyfeiriad allan o ddau atgyfeiriad perthnasol y gwiriad gofynnol am statws beichiogrwydd. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hatgoffa o weithdrefn y cyflogwr mewn perthynas â gwirio statws beichiogrwydd a chofnodi canlyniadau'r gwiriadau hyn.

Roedd yr adran ehangach yn treialu atgyfeiriadau electronig drwy Borth Clinigol Cymru ond nad yw meddygaeth niwclear wedi cael ei chynnwys eto.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hatgoffa o weithdrefn y cyflogwr mewn perthynas â gwirio statws beichiogrwydd, yn cynnwys yr angen i gofnodi bod y gwiriad wedi cael ei gwblhau.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod strwythur rheoli cadarn ar waith gyda llinellau adrodd eglur. Roedd trefniadau rheoli effeithiol ar waith i ategu cydymffurfedd rheoleiddiol parhaus.

Gwelsom arweinyddiaeth gefnogol a gweladwy ar waith yn yr adran.

Roedd y staff yn dangos eu bod yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir i ymgymryd â'u rolau yn yr adran.

Nodwyd rhai materion yr oedd angen i'r cyflogwr fynd i'r afael â nhw.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Fel y manylwyd yn flaenorol, fel rhan o'n harolygiad, roedd arolwg staff ar gael i roi cyfle i'r holl staff sy'n gweithio yn yr adran roi eu barn. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd trafodaethau gydag uwch-reolwyr y gwasanaeth, ynghyd â detholiad o staff sy'n gweithio yn yr adran.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw o'r farn eu bod yn cael cefnogaeth gan eu rheolwr llinell. Gwelsom arweinyddiaeth gefnogol a gweladwy ar waith yn yr adran. Roedd hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau'r arolwg staff. O ran y rheolwr uniongyrchol, mynegodd naw aelod o staff eu barn yn yr arolwg staff. Roedd eu barn yn cynnwys y canlynol:

- Dywedodd pob ymatebydd fod eu rheolwr uniongyrchol yn annog y rhai a oedd yn gweithio iddynt i weithio fel tîm
- Dywedodd wyth aelod o staff y gellid dibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol i helpu gyda thasgau anodd yn y gwaith, a dywedodd un ei fod yn gweud "weithiau"
- Dywedodd chwech aelod o staff fod eu rheolwr uniongyrchol yn rhoi adborth clir ar eu gwaith, dywedodd dau ei fod yn gwneud "weithiau"

- Dywedodd chwech aelod o staff fod eu rheolwr uniongyrchol yn gofyn am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith, a dywedodd tri eu bod yn gwneud "weithiau"
- Dywedodd wyth ymatebydd fod eu rheolwr uniongyrchol yn gefnogol mewn argyfwng personol a dywedodd un ei fod yn gefnogol "weithiau"

Fel y disgrifiwyd yn yr adran flaenorol, cyn yr arolygiad, roedd AGIC wedi'i wneud yn ofynnol i uwch aelodau o staff yn yr adran gwblhau a chyflwyno holiadur hunanasesu. Dychwelwyd yr hunanasesiad i AGIC o fewn yr amserlen y cytunwyd arni ac roedd yn gynhwysfawr. Er i ni dynnu sylw at rhai materion, roedd y staff yn gallu darparu'r wybodaeth ychwanegol neu'r eglurhad yn brydlon.

Ar ddiwrnod ein harolygiad, sicrhodd uwch-reolwyr a staff yr adran eu bod ar gael a gwnaethant hwyluso'r broses arolygu. Roedd y staff yn barod i dderbyn ein hadborth a gwnaethant arddangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r materion a amlygwyd.

Roedd siart o gyfundrefn adran ymbelydredd yr ysbyty ar waith, a oedd yn nodi'r llinellau adrodd yn glir ar gyfer y gwasanath cyfan, yn cynnwys yr adran meddygaeth niwclear. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu rôl o fewn RhYŷ(CM) ac roeddent yn ymwybodol o gwmpas eu hymarfer. Roedd tystysgrifau hawlogaeth a matrices hawlogaeth yn cael eu defnyddio i reoli'r broses hon.

Roedd copïau papur o'r gweithdrefnau a'r protocolau meddygaeth niwclear ar gael ac yn cael eu storio yn yr adran. Roedd y copïau papur yn cael eu defnyddio fel deunydd cyfeirio yn hytrach na'r rhai ar y system storio a rheoli dogfennau. Dywedodd y staff eu bod yn cael eu hysbysu o newidiadau i weithdrefnau drwy neges ebost neu mewn cyfarfodydd grwpiau defnyddwyr. Roedd nifer y staff a oedd yn gweithio yn yr adran feddygaeth niwclear yn fach ac felly roedd yn haws rhoi gwybod i'r staff am newidiadau yn uniongyrchol o fewn y grŵp. Cytunodd y staff fod y gweithdrefnau'n glir ac yn hawdd eu dilyn.

Nodwyd bod archwiliadau arsylwadol yn cael eu cynnal i fonitro cydymffurfedd â gweithdrefnau'r cyflogwr. Roedd canlyniadau'r adroddiadau archwilio wedi cael eu darparu cyn yr arolygiad.

Gofyniad i feddu ar drwydded

Dywedwyd wrthym fod pum ymgynghorydd ar gael i'r staff yn rheolaidd pe baent am gyfeirio ymholiadau atynt yn ddyddiol. Roedd yr ymarferydd trwyddedig fel arfer ar y safle am un diwrnod yr wythnos. Roedd trefniadau ar gyfer cymorth ymarferydd o bell a dibyniaeth ar ganllaw awdurdodiad dirprwyedig i awdurdodi gweithdrefnau yn cydymffurfio â'r rheoliadau ond nid ydynt yn unol ag arferion

gorau. Mae canllaw'r Pwyllgor Cyngori ar Weinyddu Sylweddau Ymbelydrol ar gael ar y pwnc hwn ac mae'n bosibl y bydd y cyflogwr am adolygu hyn.

O dan RhYŷ(CM), ni ellir dod i gysylltiad ag ymbelydredd sy'n gysylltiedig â gweinyddu sylwedd ymbelydrol oni fydd y cyflogwr yn meddu ar drwydded ddilys ar adeg y broses osod. Roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod trwyddedau dilys ar gyfer cyflogwr ac ymarferydd ar waith. Yn ogystal, roedd trefniadau ar waith i fonitro statws y trwyddedau gofynnol; fe'n hysbyswyd bod y trwyddedau hefyd yn cael eu cynnwys fel rhan o'r archwiliad chwe misol gan yr arbenigwr ffiseg feddygol.

Cawsom gopi o archwiliad diweddar gan yr arbenigwr ffiseg feddygol a oedd yn dangos bod astudiaethau draenio lacrymaidd wedi'u cynnal gan ddefnyddio cyffur radiofferyllol gwahanol i'r hyn a restrwyd ar drwydded yr ymarferydd a'r cyflogwr. Er nad oedd angen hysbysu o hyn fel achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad sylweddol ag ymbelydredd, rydym yn argymhell bod hyn yn cael ei hysbysu fel hysbysiad gwirfoddol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r cyflogwr ystyried y canlynol:

- Hysbysu AGIC o'r astudiaethau draenio lacrymaidd a gynhaliwyd gan ddefnyddio cyffur radiofferyllol gwahanol i'r hyn a restrwyd ar drwydded yr ymarferydd a'r cyflogwr, fel hysbysiad gwirfoddol.
- Y trefniadau ar gyfer cymorth ymarferydd o bell. Mae'r ddibyniaeth ar ganllaw awdurdodiad dirprwyedig i awdurdodi bod gweithdrefnau yn cydymffurfio â'r rheoliadau ond nid ydynt yn unol ag arferion gorau.

Dyletswyddau'r cyflogwr

Hawl

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd gan y cyflogwr bolisi a gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer hawlogaeth ac adnabod ymarferwyr, gweithredwyr ac atgyfeirwyr (a elwir yn ddeiliaid dyletswydd). Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth o'u rôl a chwmpas eu hawlogaeth o dan RhYŷ(CM). Roedd y dystiolaeth a gafwyd yn dangos bod fframwaith digonol ar waith i roi tystysgrif hawlogaeth i staff fel atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod y staff â hawl yn cael eu hysbysu'n rheolaidd o'u hawlogaethau a chwmpas eu hymarfer.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu esbonio gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer hawlogaeth a gwnaethant gadarnhau eu bod wedi cael hysbysiad ysgrifenedig (tystysgrif hawlogaeth) i ddangos eu hawl i berfformio tasgau sy'n gysylltiedig ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol.

Roedd yr holiadur hunanasesu yn nodi bod y staff meddygol yn cael gwybod am eu cyfrifoldebau yn ystod y broses sefydlu. Roedd ymarferwyr cyffredinol wedi cael gwybod am eu hawl i wneud atgyfeiriadau a'u cyfrifoldebau drwy lythyr gan gyfarwyddwr clinigol yr adran ymbelydredd neu bennaeth yr adran ymbelydredd. Roedd atgyfeirwyr anfeddygol yn cael gwybod am eu cyfrifoldebau yn ystod y cwrs hyfforddi ac mewn cyfarfod gyda'r radiograffydd arolygol cyn cael hawl i atgyfeirio.

Gweithdrefnau a phrotocolau

Roedd prif swyddog gweithredol y bwrdd iechyd wedi'i ddynodi fel y cyflogwr. Roedd polisi diogelwch ymbelydredd ïoneiddio'r bwrdd iechyd yn nodi'n glir mai'r prif weithredwr oedd yn gyfrifol am gydymffurfio â dyletswyddau'r cyflogwr fel y disgrifiwyd gan RhYİ(CM). Cadarnhaodd uwch-reolwyr hefyd mai prif swyddog gweithredol y bwrdd iechyd oedd wedi'i ddynodi fel y cyflogwr RhYİ(CM). Er bod gan y prif swyddog gweithredol gyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â bod yn gyflogwr, roedd y prif swyddog gweithredol wedi dirprwyo'r tasgau sy'n gysylltiedig â RhYİ(DM) i gyfarwyddwr gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd y bwrdd iechyd.

Gwelsom fod protocolau a gweithdrefnau clir a chryno wedi cael eu datblygu a'u gweithredu yn unol â RhYİ(CM). Roedd y protocolau ysgrifenedig wedi cael eu datblygu ar gyfer yr holl weithdrefnau meddygaeth niwclear diagnostig safonol. Roedd y protocolau'n cwmpasu'r cyffuriau radiofferyllol gofynnol, cyfeiriad at lefelau cyfeirio diagnostig a pharmedrau prosesu a delweddu. Roedd yn ofynnol i'r staff ddilyn y protocolau hyn tra'n ymgymryd â gweithgareddau meddygaeth niwclear. Roedd y protocolau a gyflenwyd wedi'u hamlinellu mewn fformat cyson, roeddent yn gyfredol ac roedd y dyddiadau adolygu wedi'u nodi'n glir. Fodd bynnag, roedd y tri phrotocol yn nodi bod yr archwiliadau wedi'u "cytuno" gan yr ymarferydd neu'r gweithredwr a oedd yn gweithio o dan ganllaw awdurdodiad dirprwyedig. Fodd bynnag, roedd y termau RhYİ(CM) cywir yn gyfiawnhad ac yn awdurdodiad a rhaid i'r cyflogwr ddiweddarau'r weithdrefn i adlewyrchu hyn.

Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith mewn perthynas â'r rhaglen sicrhau ansawdd ar gyfer gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig y cyflogwr. Roedd y ddogfen yn nodi amllder gofynnol o adolygiadau, y staff sy'n gyfrifol am adolygu dogfennau a'r broses adolygu.

Gwelsom fod gweithdrefnau cyflogwr corfforaethol, gweithdrefnau cyflogwr ymbelydredd a gweithdrefnau cyflogwr meddygaeth niwclear atodol ar gael. Mae'n bosibl yr hoffai'r cyflogwr ystyried eu had-drefnu yn y dyfodol.

Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw ddogfennau a ddiwygiwyd yn cael eu rhoi yn yr ardal a rennir yn yr adran ymbelydredd ac y byddai'r holl staff yn cael eu hysbysu o newidiadau drwy neges ebost. Yn dibynnu ar y newid, mae'n bosibl y byddai'r neges ebost er gwybodaeth, neu'n gofyn am ymateb i gadarnhau bod y staff wedi darllen a deall y newidiadau. Hefyd, mae'n bosibl y byddai trafodaeth wyneb yn wyneb, lle byddai angen i'r staff lofnodi ffurflen i ddweud eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau ac yn eu deall. Fodd bynnag, nid oedd gweithdrefnau berthnasol y cyflogwr yn disgrifio'r broses ar gyfer rhoi gwybod i staff am newidiadau i brotocolau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y broses ar gyfer rhoi gwybod i staff am newidiadau i brotocolau yn cael ei disgrifio yng ngweithdrefnau'r cyflogwr.

Dylai'r cyflogwr ystyried ad-drefnu gweithdrefnau gwahanol y cyflogwr (corfforaethol, ymbelydredd a meddygaeth niwclear atodol)

Achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad sylweddol ag ymbelydredd

Disgrifiodd yr uwch-reolwyr y broses a oedd ar waith pe bai digwyddiad neu pe bai amheuaeth fod digwyddiad, a allai achosi cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol ag ymbelydredd i gleifion. Dywedwyd wrthym fod angen i staff hysbysu rheolwr yr adran neu'r goruchwyliwr diogelwch ymbelydredd yn dilyn digwyddiad a amheuir. Byddai angen iddynt drafod y digwyddiad gyda'r unigolion dan sylw, sicrhau bod y wybodaeth berthnasol o ran y cysylltiad yn cael ei chasglu a chysylltu â'r arbenigwr ffiseg feddygol.

Yn ogystal, cawsom wybod bod yr holl ddigwyddiadau a digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddiwydd yn cael eu cofnodi drwy Datis, sef y system electronig ar gyfer cofnodi digwyddiadau. Pe bai angen, byddai archwiliad yn cael ei gwblhau a fyddai'n arwain at adroddiad cryno, a fyddai'n cynnwys unrhyw gamau a gymerwyd a gwersi i'w dysgu. Cadarnhaodd uwch-reolwyr fod unrhyw ddeilliannau dysgu yn dilyn digwyddiadau'n cael eu rhannu â'r staff perthnasol. Cawsom wybod hefyd bod yr holl gleifion perthnasol yn cael eu hysbysu bob amser ynghylch unrhyw achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad ag ymbelydredd.

Byddai'r digwyddiad yn cael ei drafod yn y grŵp defnyddwyr dull ²⁴(neu ddulliau) perthnasol. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai hysbysiad o rybudd yn cael ei arddangos i'r staff ar brydiau, a gwelsom enghraifft o hyn (ond nid oedd yn gysylltiedig â meddygaeth niwclear). Yn ogystal, dywedwyd wrthym y byddai'r digwyddiad yn cael ei adrodd a'i drafod yn y cyfarfodydd llywodraethu ansawdd. Fodd bynnag, nid oedd y broses hon wedi'i nodi yng ngweithdrefn y cyflogwr perthnasol. Rhaid i'r cyflogwr ddiwygio gweithdrefn y cyflogwr perthnasol i gynnwys y dull hwn o sicrhau bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â'r staff perthnasol.

Mewn ymateb i'r holiadur staff, nododd wyth aelod o staff farn ynghylch yr hyn sy'n digwydd pan fydd digwyddiadau a chamgymeriadau. Dywedodd un aelod o staff ei fod wedi gweld digwyddiad damweiniol neu anfwriadol mewn perthynas â chysylltiad ag ymbelydredd a oedd yn effeithio ar aelod o staff a dywedodd un aelod o staff ei fod wedi gweld digwyddiad damweiniol neu anfwriadol mewn perthynas â chysylltiad ag ymbelydredd a oedd yn effeithio ar gleifion yn ystod y mis diwethaf. Ni ddywedodd unrhyw aelod o staff eu bod wedi gweld camgymeriad yn ymwneud â diogelwch cleifion, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau eraill yn ystod y mis diwethaf.

Dywedodd yr holl staff iddynt adrodd am y tro diwethaf iddynt weld digwyddiad anfwriadol mewn perthynas â chysylltiad ag ymbelydredd, camgymeriad, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau eraill. Cytunodd yr holl staff fod eu sefydliad yn trin staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriad, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd neu ddigwyddiad yn deg, a gwnaethant gytuno bod y sefydliad yn eu hannog i adrodd ar unrhyw gamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau. Cytunodd yr holl staff fod y sefydliad yn trin adroddiadau am gamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau eraill yn gyfrinachol.

Cytunodd yr aelodau o staff a fynegodd farn nad yw eu sefydliad yn beio nac yn cosbi pobl sy'n ymwneud â chamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau eraill. Gwnaethant gytuno hefyd, pan

²⁴ Dull yw'r term a ddefnyddir ym maes ymbelydredd i gyfeirio at un ffurf o ddelweddu e.e. sganio tomograffeg gyfrifiadurol. Caiff ei ddefnyddio'n aml yn y ffurf luosog. Yn fwy cyffredinol, mewn meddygaeth glinigol, caiff y term dull ei ddefnyddio ar gyfer mathau gwahanol o weithdrefnau a therapïau.

adroddwyd ar wallau, digwyddiadau y bu ond y dim ddigwydd neu ddigwyddiadau eraill, bod eu sefydliad wedi gweithredu i sicrhau na fyddent yn digwydd eto. Gofynnwyd i staff a oeddent yn cael eu hysbysu am gamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau eraill a ddigwyddodd yn y sefydliad. Gofynnwyd i'r holl staff am newidiadau a wnaed mewn ymateb i gamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, a digwyddiadau eraill yr adroddwyd amdanynt. Dywedodd pump allan o'r chwech a fynegodd farn eu bod wedi cael eu hysbysu a'u bod wedi gweld newidiadau.

Dywedodd yr holl staff a fynegodd farn, pe baent yn poeni am ymarfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i adrodd arno, ac y byddent yn teimlo'n fodlon wrth godi pryderon am ymarfer clinigol anniogel. Hefyd, dywedodd bron bob aelod o staff eu bod yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr ddiwygio gweithdrefn y cyflogwr perthnasol i gynnwys y wybodaeth a geir yn yr holiadur hunanasesu sy'n ymwneud â digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd. Mae hyn yn cynnwys sut y caiff yr archwiliad ei gynnal a sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â'r staff perthnasol.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Roeddem yn bryderus i ddarganfod bod un aelod o staff, o blith y deg aelod o staff a gwblhaodd ein harolwg, wedi ticio'r opsiwn a oedd yn gysylltiedig â'r cwestiwn 'ydych chi wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith o fewn y 12 mis diwethaf'. Yn ogystal â hyn, roedd un aelod o staff yn anghytuno â'r sylw bod gan staff fynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle. (Heb ystyried oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, a rhyw a chyfeiriadedd rhywiol). Fodd bynnag, cytunodd yr ymatebwyr fod eu gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau ar waith i ganiatáu i unrhyw aelod o staff adrodd ar unrhyw faterion sy'n peri pryder yn fewnol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol.

Dywedwyd wrthym fod yr adran ymbelydredd, yn gyffredinol, yn gweithredu gyda nifer penodol o staff. Byddai'r staff cymwys a hyfforddedig yn gweithio yn yr adran feddygaeth niwclear ar sail rota. Roedd arweinydd yr adran yn gweithio yn yr adran feddygaeth niwclear yn barhaol a deir o hyd i'r staff arall fel bo'r angen i ateb galw'r cleifion.

Roedd pedair swydd wag ar lefel band pump ar hyn o bryd, ar draws yr adran ymbelydredd. Roedd yr adran wrthi'n llunio rhestr fer ar gyfer y swyddi gwag hyn. Cawsom wybod bod digon staff i weithio yn yr adran meddygaeth niwclear yn gyffredinol. Ar brydiau, byddai angen i'r tîm rheoli ymgymryd â'r dyletswyddau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cael ei redeg. Byddent yn gwirio'r dosau fel bo'r angen. Fodd bynnag, cadarnhawyd nad oedd hawl ganddynt i wirio dosau fel gweithredwyr. Mae angen i'r adran sicrhau bod hawl ganddi fel gweithredwr i wirio dosau er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â RhYĪ(DM) 2017.

Nododd yr uwch aelodau o staff fod mynediad cydradd i gyfleoedd yn y gweithle a bod pawb yn yr adran yn cael eu trin yn deg. Roedd yr holl staff yn ymwybodol o'r cyfleoedd a oedd ar gael. Roedd y cyrsiau a'r swyddi gwag yn cael eu postio yn yr ystafell staff.

Dywedwyd wrthym fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith a oedd ar gael yn ardal y bwrdd iechyd a rennir a bod hyfforddiant e-ddysgu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn orfodol i bawb.

O ran yr uwch dîm reoli, mynegodd wyth aelod o staff farn. Roedd yr ymatebion yn cynnwys

- Dywedodd bron pawb eu bod yn gwybod pwy oedd yr uwch-reolwyr, a dywedodd un ei fod yn gwybod "weithiau"
- Dywedodd pedwar fod cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol a dywedodd pedwar ei fod yn effeithio weithiau
- Dywedodd tri aelod o staff fod yr uwch-reolwyr yn ceisio cynnwys staff mewn penderfyniadau pwysig, a dywedodd pump aelod o staff eu bod yn gwneud hynny weithiau
- Dywedodd dau ymatebydd fod uwch-reolwyr yn gweithredu ar adborth gan staff a dywedodd chwech eu bod yn gwneud hynny weithiau
- Dywedodd pawb fod yr uwch-reolwyr wedi ymrwymo i ofalu am y cleifion.

Llwyth gwaith

Dim ond dau aelod o staff a fynegodd farn ar feysydd fel llwyth gwaith, offer, staffio a newidiadau i'w gwaith. O'r herwydd, nid yw'r farn hon wedi cael ei nodi ymhellach. Fodd bynnag, dywedodd wyth ymatebydd fod eu sefydliad bob amser, neu fel arfer, yn annog gwaith tîm a dywedodd dau ymatebydd ei fod yn gwneud hynny weithiau. Dywedodd pedwar ymatebydd fod y sefydliad bob

amser, neu fel arfer, yn gefnogol a dywedodd chwech ymatebydd ei fod yn gefnogol weithiau. Gwnaeth un aelod o staff y sylwadau canlynol

“Dwi wedi bod yn llwyddiannus gyda'r cais am weithio oriau hyblyg lle rwy'n gweithio fy oriau mewn wythnos dros nifer llai o ddiwrnodau. Mae'r trefniant hwn yn rhoi cyfnodau 'tawel' y tu allan i oriau gwaith arferol lle gallaf weithio heb unrhyw beth yn torri ar draws ac rwy'n teimlo fy mod i'n fwy cynhyrchiol”

Dyweddodd wyth ymatebydd fod gan weithwyr proffesiynol rheng flaen a oedd yn delio'n uniongyrchol â chleifion, bob amser, neu fel arfer, y rhyddid i siarad a gweithredu. Hynny yw, pe baent yn nodi problemau yn unol â gofynion eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain, a nododd dau eu bod yn teimlo felly. Dywedodd saith aelod o staff fod diwylliant o fod yn agored ac o ddysgu bob amser, neu fel arfer, o fewn y sefydliad a oedd yn cefnogi staff i nodi a datrys problemau, a nododd tri bod hyn yn wir weithiau.

Dyweddodd saith o'r ymatebwyr fod gan eu sefydliad bob amser, neu fel arfer, y wybodaeth gywir i fonitro ansawdd gofal ar draws yr holl ymyriadau clinigol, a'u bod yn ymateb yn gyflym pan oedd diffygion, a dywedodd tri ymatebwr fod y sefydliad yn gwneud hynny weithiau.

Dyweddodd naw ymatebwr eu bod bob amser, neu fel arfer, yn fodlon ag ymdrechion eu sefydliad i'w cadw nhw a'r cleifion yn ddiogel, a dywedodd un ymatebydd ei fod yn teimlo felly weithiau.

Arfarniadau

Gwnaethom holi staff amrywiaeth o gwestiynau am eu proses arfarnu a gynhelir yn flynyddol. Dywedodd dau ymatebydd eu bod wedi cael adolygiad neu arfarniad blynyddol o fewn y 12 mis diwethaf, dywedodd wyth nad oeddent wedi cael un. O blith y naw aelod o staff a atebodd y cwestiwn, dywedodd wyth nad oedd eu hanghenion hyfforddiant, dysgu neu ddatblygu yn cael eu nodi yn ystod yr arfarniad. Yn ogystal, o blith o chwech aelod o staff a atebodd y cwestiwn, dywedodd un fod ei reolwr yn ei gefnogi i gael hyfforddiant a datblygiad a dywedodd pump aelod o staff nad oeddent yn cael y gefnogaeth honno.

Cadarnhaodd uwch aelodau o staff nad oedd yr arfarniadau staff yn gyfredol oherwydd COVID-19 ac absenoldebau staff. Gwnaethant gadarnhau bod cynlluniau ar waith i gwblhau'r arfarniadau hyn. Darparwyd adroddiadau rheolaidd i uwch-reolwyr mewn perthynas â chydymffurfedd ag arfarniadau.

Dyweddwyd wrthym y byddai'r staff yn cael eu holi am eu dyheadau o ran gyrfa ar gyfer y pum mlynedd nesaf fel rhan o'r broses arfarnu. Dibynwyd ar y staff i nodi

sut yr hoffent ddatblygu fel bod yr hyfforddiant yn cael ei nodi ar gyfer y meysydd hynny.

Hyfforddiant

O'n gwiriad o sampl o chwe chofnod staff am hyfforddiant gorfodol, gwelsom fod y dyddiad wedi dod i ben ar gyfer nifer o feysydd o hyfforddiant gorfodol. Roedd hyfforddiant pump aelod o staff allan o chwech wedi dod i ben ar gyfer dadebru, yn ogystal ag atal a rheoli heintiau a'r meysydd diogelu a ddisgrifiwyd yn yr adrannau perthnasol uchod. Yn ogystal, roedd hyfforddiant yr holl staff wedi dod i ben ar gyfer diogelwch tân a symud a thrin. Fodd bynnag, roedd yr holl staff wedi cwblhau eu hyfforddiant iechyd a diogelwch.

Dywedodd uwch aelodau o staff eu bod yn ymwybodol bod rhywfaint o hyfforddiant gorfodol y staff wedi dod i ben. Fel arfer, byddai'r staff yn cwblhau eDdysgu a hyfforddiant lefel 2 ar gyfer staff clinigol, ond rhoddwyd y gorau i hyn oherwydd COVID-19. Gwnaethant nodi bod cynllun ar gael i ryddhau'r staff i gael yr hyfforddiant hwn. Roedd uwch aelodau o staff wedi nodi pedwar modiwl hyfforddiant i ganolbwyntio arnynt, gan gynnwys atal a rheoli heintiau, dadebru a chodi a chario.

Gofynnwyd cwestiynau amrywiol i'r staff yn yr arolwg staff yn ymwneud â hyfforddiant. Dywedodd deg ymatebydd eu bod wedi cael hyfforddiant mewn iechyd a diogelwch, diogelwch tân ac ymwybyddiaeth o dân, rheoli heintiau, diogelu, a galluedd iechyd meddwl.

Fel rhan o'n harolygiad, gwnaethom adolygu sampl o gofnodion hyfforddi, cymhwysedd a hawlogaethau deiliaid dyletswydd. Yn gyffredinol, roedd y cofnodion hyfforddiant yn dda. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r mathau o sganiau neu weithdrefnau y gellid eu gwneud yn yr adran. Fodd bynnag, nid oedd dogfennau cofnodion hyfforddiant meddygaeth niwclear yn rhan o'r system sicrhau ansawdd. Mae angen i'r cyflogwr gynnwys y rhain er mwyn sicrhau bod cofnodion yn cael eu rheoli'n gyson.

Dywedodd y deg aelod o staff a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi derbyn hyfforddiant RhYİ(CM) sy'n berthnasol i'w swyddogaethau fel ymarferydd neu weithredwr. Gwnaethant gadarnhau bod eu hyfforddiant yn gyfredol yn unol â'r RhYİ(CM) sy'n berthnasol i'w maes ymarfer perthnasol. Dywedodd chwech allan o saith aelod staff a fynegodd eu barn, eu bod wedi cael hyfforddiant arall sy'n berthnasol i'w maes gwaith. Cawsom sylwadau ar hyfforddiant a fyddai o gymorth i staff, a dangosir rhai ohonynt isod:

“Dehongli delweddau”

“Hyfforddiant am ddulliau ac offer gwella ansawdd”

Dywedodd y deg ymatebydd fod hyfforddiant bob amser, neu fel arfer, yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol. Dywedodd naw ymatebydd fod hyfforddiant bob amser, neu fel arfer, yn eu helpu i wybod beth yw'r gofynion proffesiynol diweddaraf, a dywedodd un ei fod yn teimlo felly. Dywedodd naw ymatebydd ei fod bob amser, neu fel arfer, yn eu helpu i ddarparu profiad gwell i gleifion, a dywedodd un ei fod yn teimlo felly. Cawsom un sylw yn ymwneud â hyfforddiant:

"Gallai fod yn fwy cefnogol gyda'r cyfleoedd dysgu ychwanegol"

Iechyd a llesiant

Nododd y staff y byddent yn mynd at arweinwyr yr adran pe bai ganddynt bryderon am eu llesiant. Oherwydd natur yr adran, roedd uwch reolwyr yn gweithio ar sail un i un gyda staff eraill, yn rheolaidd, a oedd yn rhoi'r cyfle i'r staff godi unrhyw bryderon. Pe bai ganddynt bryderon gallent fynd at y radiograffydd arolygol yn uniongyrchol. Roedd atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol yn cael eu gwneud fel yr oedd yn ofynnol. Dywedwyd wrthym hefyd fod gwasanaeth cwnsela ar gael, ac roedd mynediad gan lawer o'r staff ato. Roedd tîm llesiant yn yr ysbyty hefyd.

Gwnaethom hefyd ofyn cwestiynau i'r staff yn yr arolwg a oedd yn ymwneud â'u llesiant. Cytunodd yr wyth aelod o staff a ymatebodd nad oedd eu swydd yn niweidiol i'w hiechyd. Cytunodd saith aelod o staff o blith yr wyth a fynegodd farn fod eu patrwm gwaith cyfredol yn caniatáu cydbwysedd da rhwng bywyd personol a gwaith, ond roedd un yn anghytuno. Dywedodd yr holl staff a fynegodd farn fod eu rheolwr uniongyrchol yn cymryd diddordeb yn eu hiechyd a'u llesiant ac wedi gweithredu'n gadarnhaol. Yn ogystal, cytunodd yr holl aelodau o staff a fynegodd farn eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael a bod cymorth llawn yn cael ei gynnig iddynt pan fydd sefyllfaoedd heriol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y prosesau canlynol ar waith:

- Caniatáu i unrhyw aelod o staff roi gwybod am unrhyw faterion sy'n peri pryder yn fewnol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol
- Sicrhau bod staff yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal ac na fydd unrhyw achosion o wahaniaethu yn cael eu goddef ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:

- Bod hyfforddiant gorfodol ar gyfer y staff yn cael ei wella a bod cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau cydymffurfedd â'r hyfforddiant gofynnol
- Bod arfarniadau yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl staff mewn modd amserol
- Bod gan yr holl staff yr hawlogaethau perthnasol i gyflawni eu dyletswyddau a bod yr holl gofnodion hawlogaethau a hyfforddiant yn gyfredol, yn gyflawn ac ar gael i bob aelod o staff
- Bod y dogfennau cofnodion hyfforddiant yn rhan o'r system sicrhau ansawdd a ddogfennir.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws manau eraill o fewn y sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio

Mae AGIC yn gyfrifol am fonitro cydymffurfedd â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2017](#) a'u diwygiad dilynol ([2018](#)).

Llunnir y rheoliadau i sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu hamddiffyn rhag cysylltiad anfwriadol, gormodol neu anghywir ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol ac, ym mhob achos, bod y risg o'r cysylltiad ag ymbelydredd yn cael ei hasesu yn erbyn y budd clinigol
- Nid yw cleifion yn cael mwy o gysylltiad ag ymbelydredd nag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r budd a ddymunir o fewn terfynau'r dechnoleg gyfredol
- Mae gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil feddygol yn cael eu diogelu

Rydym yn edrych ar sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)
- Diwallu unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel y bo'n briodol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau gofal iechyd sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae gwasanaethau'n derbyn rhybudd o hyd at 12 wythnos o arolygiad.

Cynhelir yr arolygiadau gan o leiaf un arolygydd AGIC, ac fe'u cefnogir gan uwch-swyddog clinigol o Iechyd Cyhoeddus Lloegr, yn gweithredu mewn rôl ymgynghorol.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal sy'n ymwneud ag ymbelydredd ïoneiddio.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Ysbyty: Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Ward/adran: Adran Meddygaeth Niwclear

Dyddiadau'r arolygiad: 4/5 Hydref 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dim materion sicrwydd dybryd				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Ward/adran: Adran Meddygaeth Niwclear

Dyddiadau'r arolygiad: 4/5 Hydref 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth ysgrifenedig, lle y bo'n berthnasol, o ran pwy i gysylltu â nhw i gael cyngor am unrhyw effeithiau ar ôl iddynt gael triniaeth.	4.2 Gwybodaeth i gleifion	Adolygu a diwygio'r wybodaeth i gleifion yn unol â'r gofynion.	Radiograffydd arolygol	14 Ionawr 2022
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol: <ul style="list-style-type: none">Mae trefniadau ar waith i gasglu adborth cleifion yn rheolaidd ar y gwasanaethau a ddarperir yn yr adranMae systemau ar waith i roi diweddariadau rheolaidd i staff a	6.3 Gwrando a dysgu o adborth	Mae arolwg blynyddol profiad y claf ar waith ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gynnal yn rheolaidd. Bydd y canlyniadau'n cael eu bwydo nôl yn yr arolygiad staff ac i gleifion drwy'r hysbysfyrddau yn yr manau aros perthnasol.	Radiograffydd arolygol	25 Chwefror 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyrffol	Amserlen
<p>chleifion ar yr adborth profiad cleifion a dderbyniwyd gan y gwasanaeth, yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerir.</p>		<p>Bydd system profiad y claf Civica yn cael ei lansio i bobl claf ei chyrchu o fis Ionawr 2022. Sawl aelod o staff yr adran ymbelydredd i gael hyfforddiant yn ystod mis Rhagfyr 2021.</p>	<p>Cyfarwyddwr Nyrso'r Ardal</p>	
<p>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</p>				
<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennir canllawiau atgyfeirio ar gyfer biopsïau nod lymff sentinel • Bod y polisi atgyfeirio yn cael ei ddiweddarau i gynnwys proses ar gyfer canslo atgyfeiriadau. 	<p>RhYŷ(CM) 2017 adran 6(5)(a)</p>	<p>Paratoi a diwygio canllawiau a pholisïau fel y nodwyd.</p>	<p>Radiograffydd arolygol</p>	<p>14 Ionawr 2022</p>
<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y Polisi Diogelu rhag Ymbelydreddau Ïoneiddio yn cael ei ddiweddarau i nodi'n glir y trefniadau cyfredol ar hawl a phenodiad yr arbenigwr ffiseg feddygol.</p>	<p>RhYŷ(CM) 2017 adran 10 (3) ac Atodlen 2 para 1(b)</p>	<p>Trefniadau hawlogaeth i gael eu hegluro yn y polisi.</p>	<p>Radiograffydd arolygol</p>	<p>24 Rhagfyr 2021</p>
<p>Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y cyfyngiadau dos a bennwyd ar gyfer achosion o gysylltiad ag ymbelydredd i ofalwyr a chysurwyr, yn y</p>	<p>RhYŷ(CM) 2017 Rheoliad 6(5)(d)(ii)</p>	<p>Cyfyngiadau dos i gael ei lleihau yn unol â thrafodaethau gyda'r arbenigwr ffiseg feddygol.</p>	<p>Radiograffydd arolygol</p>	<p>24 Rhagfyr 2021</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
weithdrefn berthnasol, yn cael ei leihau i werth mwy realistig.	Atodlen 2 para 1(n)			
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y cytundeb lefel gwasanaeth yn adlewyrchu gwaith yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol o fewn yr adran a'r bwrdd iechyd.	RhYĪ(CM) 2017 Adran 14	Adolygu cynnwys y cytundeb lefel gwasanaeth yn unol â'r dyddiad adnewyddu erbyn 1 Ebrill 2022.	Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cymorth Clinigol	31 Mawrth 2022
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl staff wedi cael hyfforddiant atal a rheoli heintiau cyfredol hyd at y lefel ofynnol.	2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Nodi'r staff perthnasol y mae angen iddynt loywi eu hyfforddiant a nodi amser priodol ar gyfer cwblhau'r hyfforddiant.	Radiograffydd arolygol	25 Chwefror 2022
Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl staff wedi cael hyfforddiant diogelu cyfredol hyd at y lefel ofynnol.	2.7 Diogelu plant ac oedolion mewn perygl	Nodi'r staff perthnasol y mae angen iddynt loywi eu hyfforddiant a nodi amser priodol ar gyfer cwblhau'r hyfforddiant.	Radiograffydd arolygol	25 Chwefror 2022
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Bod tystysgrif yr arbenigwr ffiseg feddygol yn cael ei chwblhau'n gywir, yn cynnwys yr asesiad o gymhwysedd. Bod y weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymchwil i gysylltiad ag ymbelydredd yn 	3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi RhYĪ(CM) 2017 Adran 14(2) RhYĪ(CM) 2017 Atodlen 2 para 1(g)	Rhoi tystysgrif yr arbenigwr ffiseg feddygol yn briodol Diwygio'r weithdrefn fel y bo'n briodol.	Radiograffydd arolygol	24 Rhagfyr 2021 14 Ionawr 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cael ei diwygio i adlewyrchu'r weithdrefn wirioneddol a'i bod yn cynnwys cyfeiriad at rôl yr arbenigwr ffiseg feddygol.			Radiograffydd arolygol	
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hatgoffa o weithdrefn y cyflogwr mewn perthynas â gwirio statws beichiogrwydd, yn cynnwys yr angen i gofnodi bod y gwiriad wedi cael ei gwblhau.	3.5 Cadw cofnodion RhŶi(CM) 2017 Adran 11(1)(f)	Hysbysu'r holl staff o'r gofyniad hwn.	Radiograffydd arolygol	Cwblhawyd - 7 Rhagfyr 2021
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Dylai'r cyflogwr ystyried y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Hysbysu AGIC o'r astudiaethau draenio lacrymaidd a gynhaliwyd gan ddefnyddio cyffur radiofferyllol gwahanol i'r hyn a restrwyd ar drwydded yr ymarferydd a'r cyflogwr, fel hysbysiad gwirfoddol. Y trefniadau ar gyfer cymorth ymarferydd o bell. Mae'r ddibyniaeth ar ganllaw awdurdodiad dirprwyedig i awdurdodi bod gweithdrefnau yn 	<p>RhŶi(CM) 2017 Rheoliad 5(1)</p> <p>RhŶi(CM) Rheoliad 11(5)</p>	<p>Cysylltu â'r arbenigwr ffiseg feddygol a'r radiograffydd arolygol a chyflwyno hysbysiad gwirfoddol ynghylch astudiaethau draenio lacrymaidd.</p> <p>Penodwyd ymgynghorydd newydd i'r bwrdd iechyd yn benodol ar gyfer meddygaeth niwclear. Mae'r ymgynghorydd wedi derbyn ei drwydded yn ddiweddar a bydd yr hawl yn cael ei</p>	<p>Radiograffydd arolygol</p> <p>Cyfarwyddwr Clinigol</p>	<p>24 Rhagfyr 2021</p> <p>24 Rhagfyr 2021</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cydymffurfio â'r rheoliadau ond nid ydynt yn unol ag arferion gorau.		diweddarau a ddylai dorri i lawr ar y defnydd a wneir o awdurdodiad canllaw awdurdodiad dirprwyedig ar gyfer awdurdodi gweithdrefnau.		
<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y broses ar gyfer rhoi gwybod i staff am newidiadau i brotocolau yn cael ei disgrifio yng ngweithdrefnau'r cyflogwr.</p> <p>Dylai'r cyflogwr ystyried ad-drefnu gweithdrefnau gwahanol y cyflogwr (corfforaethol, ymbelydredd a meddygaeth niwclear atodol).</p>	RhYŷ(CM) 2017 Adranau 6(1), (2), (5)(b)	<p>Dogfennu o fewn gweithdrefnau'r cyflogwr.</p> <p>I'w wneud yn unol â'r gwaith parhaus o adnewyddu gweithdrefnau naill ai yn unol â'r dyddiad adolygu priodol neu newid mewn deddfwriaeth.</p>	Radiograffydd arolygol	24 Rhagfyr 2021 Parhaus
Rhaid i'r cyflogwr ddiwygio gweithdrefn y cyflogwr perthnasol i gynnwys y wybodaeth a geir yn yr holiadur hunanasesu sy'n ymwneud â digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd. Mae hyn yn cynnwys sut y caiff yr archwiliad ei gynnal a sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â'r staff perthnasol.	RhYŷ(CM) 2017 Adran 8	Dogfennu o fewn gweithdrefnau'r cyflogwr priodol.	Radiograffydd arolygol	14 Ionawr 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y prosesau canlynol ar waith:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Caniatáu i unrhyw aelod o staff roi gwybod am unrhyw faterion sy'n peri pryder yn fewnol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol • Sicrhau bod staff yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal ac na fydd unrhyw achosion o wahaniaethu yn cael eu goddef ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd 	<p>Safon 7.1 Y Gweithlu Safon 6.2 Hawliau Pobl</p>	<p>Hysbysu staff o bryderon diweddar a godwyd a rhoi sicrwydd ac ymrwymiad i bob aelod o staff y bydd unrhyw bryderon yn cael eu trin yn briodol.</p> <p>Fel yr uchod.</p>	<p>Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cymorth Clinigol</p>	<p>24 Rhagfyr 2021</p>
<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod hyfforddiant gorfodol ar gyfer y staff yn cael ei wella a bod cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau cydymffurfedd â'r hyfforddiant gofynnol 	<p>7.1 Gweithlu</p>	<p>Mae gwelliannau i hyfforddiant yr holl staff yn mynd rhagddynt yn barhaus ac mae arweinwyr y safle yn blaenoriaethu hyfforddiant yn briodol.</p>	<p>Radiograffydd arolygol</p> <p>Radiograffydd arolygol</p>	<p>Ar unwaith ac yn parhau</p> <p>Ar unwaith ac yn parhau</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Bod arfarniadau yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl staff mewn modd amserol 	RhYi(CM) 2017 Adran 17 ac Atodlen 3	Fel uchod, mae amserlen i bob adolygiad datblygiad perfformiad i'w chwblhau (yn unol â dyddiadau cynyddran y polisi).	Radiograffydd arolygol	14 Ionawr 2022
<ul style="list-style-type: none"> Bod gan yr holl staff yr hawlogaethau perthnasol i gyflawni eu dyletswyddau a bod yr holl gofnodion hawlogaethau a hyfforddiant yn gyfredol, yn gyflawn ac ar gael i bob aelod o staff. Bod y dogfennau cofnodion hyfforddiant yn rhan o'r system sicrhau ansawdd a ddogfennir. 	RhYi(CM) 2017 Adran 6, 17 ac Atodlen 3	Bydd dogfennau hawlogaeth i bob aelod o staff yn cael eu hadolygu fel y bo'n briodol i sicrhau bod y cofnodion yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl hawlogaethau perthnasol i ddeiliaid dyletswydd. I'w cyfuno â'r adolygiad nesaf o ddogfennau'r rhaglen sicrhau ansawdd.	Radiograffydd arolygol	31 Mawrth 2022

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Paul Johnston

Swydd:

Radiograffydd arolygol

Dyddiad:

8 Rhagfyr 2021